

Adroddiad ar Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (lle rhoddwyd rhybudd)

The Beauty Rooms at The Nibblers, Y Barri

Dyddiad yr arolygiad: 21 Hydref 2025

Dyddiad cyhoeddi: 21 Ionawr 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80633-953-2

© Hawlfraint y Goron 2026

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom.....	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	9
• Ansawdd Profiad y Claf	9
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	15
4. Y camau nesaf.....	17
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	18
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith.....	19
Atodiad C - Cynllun gwella	20

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o The Beauty Rooms at The Nibblers, 68 Holton Road, Y Barri, CF63 4HE ar 21 Hydref 2025.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan un o arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o bedwar holiadur. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd The Beauty Rooms at The Nibblers yn cynnig profiad cadarnhaol i'r cleifion mewn amgylchedd cyfforddus. Roedd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch.

Roedd cleifion yn cael ymgynghoriad llawn a gwybodaeth briodol cyn y driniaeth i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus. Roedd darpariaeth gyfyngedig ar gyfer cleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf.

Nodwyd gennym fod y clinig yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd ar y cyfan, a bod mynediad cadair olwyn i'r ardal drin ar y llawr gwaelod yn cael ei drefnu drwy'r fynedfa gefn.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Rhoi'r gorau i roi triniaethau i gleifion o dan 18 oed.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r staff gwblhau hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Ystyried y ffordd orau y gall y clinig ddiwallu anghenion unigol cleifion a all fod yn awyddus i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Ymgynghoriadau cynhwysfawr sy'n cynnwys esboniad o risgiau a manteision y driniaeth
- Roedd ffurflen gydsyniad yn cael ei llofnodi yn ystod pob apwyntiad ar gyfer triniaeth
- Gofynnir am adborth gan gleifion drwy neges destun ar ôl iddynt gael triniaeth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Yn ôl pob golwg, roedd y clinig yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac roedd yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau y mae wedi'i gofrestru i'w darparu.

Yn gyffredinol, roedd y trefniadau diogelwch tân yn dda ac roedd gwybodaeth gyffredol am Brofion Offer Cludadwy ar gael ynghyd â'r Adroddiad diweddaraf ar Gyflwr Gosodiadau Trydanol (EICR). Fodd bynnag, gwelsom fod angen hyfforddiant diogelwch tân ar sawl aelod o'r staff.

Roedd Cynghorydd Diogelu rhag Laserau penodedig, Rheolau Lleol cyffredol ac asesiad risg ar waith. Roedd y peiriannau laser yn cael eu gwasanaethu yn briodol. Er bod cyfarpar amddiffyn llygaid digonol ar gael, nid oedd rhai o'r setiau sbâr yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y rheolau lleol a chafwyd gwared arnynt er mwyn osgoi achosion o'u defnyddio ar ddamwain.

Er bod prosesau diogelu priodol ar waith, roedd angen rhywfaint o hyfforddiant diogelu ychwanegol i sicrhau bod y staff wedi'u hyfforddi'n briodol i'r lefelau cywir ym mhob modiwl perthnasol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Roedd angen adolygu'r protocolau trin meddygol
- Cofnodi'r gwiriadau dyddiol o'r peiriant laser.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y safle yn lân iawn ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda
- Disgrifiwyd prosesau atal a rheoli heintiau da
- Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu storio'n ddiogel.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Y rheolwr cofrestredig sy'n rhedeg The Beauty Rooms at The Nibblers gyda thîm bach o staff. Roedd yswiriant atebolrwydd cyflogwr ac atebolrwydd cyhoeddus dilys ar waith. Roedd amrywiaeth o bolisiâu i helpu'r staff i gyflawni eu dyletswyddau. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth wedi'i llofnodi fod y staff wedi'u darllen a'u deall.

Roedd gweithdrefn gwyno ar waith a oedd yn cynnwys amserlenni addas ar gyfer cydnabod cwynion a'u datrys.

Roedd gweithdrefnau priodol ar waith i recriwtio a sefydlu staff. Roedd gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal ar gyfer staff a gaiff eu cyflogi yn y clinig.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Arddangos tystysgrif gofrestru AGIC lle y gellir ei gweld yn hawdd
- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn llofnodi'r polisiâu i gadarnhau ei fod wedi eu darllen a'u deall.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Adolygu a diweddarau'r holl bolisiâu yn rheolaidd
- Tystiolaeth o hyfforddiant clinigol perthnasol ychwanegol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Urddas a pharch

Roedd gan y clinig un ystafell drin ar gyfer triniaethau laser wedi'i lleoli yn islawr y clinig. Roedd mynediad i'r ystafell drin yn cael ei chyfyngu ac roedd clo ar y drws a oedd yn arwain at yr ardal hon i alluogi'r cleifion i newid yn breifat.

Roedd ymgynghoriadau â chleifion yn cael eu cynnal yn yr ystafelloedd trin i sicrhau cyfrinachedd y cleifion.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn teimlo bod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch a bod y staff wedi gwrandao arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd gan y clinig wefan a oedd yn darparu gwybodaeth am y gwasanaethau roedd yn eu cynnig ac a oedd yn cynnwys copïau o'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben, a oedd, yn ôl yr hyn a welwyd, yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Roedd copïau o'r ddwy ddogfen hefyd ar gael yn y dderbynfa, a gellid eu darparu mewn print bras pe byddai angen.

Nid oedd unrhyw staff sy'n siarad Cymraeg yn y clinig, ac nid oedd unrhyw ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau cyfieithu. Ni chawsom sicrwydd y byddai hyn yn galluogi'r cleifion i ddeall eu triniaeth yn ddigonol er mwyn rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth. Gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig bod angen iddi ddod o hyd i wasanaeth cyfieithu priodol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ystyried y ffordd orau i ddiwallu anghenion unigol cleifion a all fod am gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gellid trefnu ymgynghoriadau ac apwyntiadau ar gyfer triniaethau yn y dderbynfa, dros y ffôn a'r cyfryngau cymdeithasol, neu drwy blatfform trefnu apwyntiadau ar-lein y clinig.

Roedd rhestrau prisiau'r clinig ar gael ar y safle ac ar y wefan. Dywedwyd wrthym y byddai costau triniaethau yn cael eu trafod a'u cadarnhau fel rhan o'r broses ymgynghori.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Gwnaethom ofyn i gael gweld y gofrestr triniaethau fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau, a gwelsom fod y manylion angenrheidiol am driniaethau a'r paramedrau cyfarpar wedi'u cofnodi'n glir arni.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf a gwelsom fod ymgynghoriad cychwynnol a gwiriad hanes meddygol wedi'u dogfennu a bod ffurflen gydsynio wedi'i llofnodi gan bob claf. Gwelsom dystiolaeth fod newidiadau i hanes meddygol yn cael eu gwirio ym mhob apwyntiad dilynol. Gwelsom ddogfennau ôl-ofal a dywedwyd wrthym eu bod yn cael eu darparu i bob claf ar ôl triniaeth. Fodd bynnag, gwelsom fod triniaeth laser wedi cael ei darparu i glaf dan 18 oed. Mae hyn yn torri Amodau Cofrestriad y clinig ag AGIC.

Ymdriniwyd â'n pryderon mewn perthynas â'r materion hyn o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Fel rhan o'r broses hon, gwnaethom ysgrifennu at y gwasanaeth ar unwaith yn dilyn yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau unioni ar fyrder. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Cynllunio a darparu gofal

Roedd pob claf yn cael ymgynghoriad llawn cyn cytuno i unrhyw driniaethau. Dywedwyd wrthym fod hyn yn cynnwys risgiau, manteision a chanlyniadau disgwylidig y driniaeth arfaethedig. Cawsom sicrwydd bod y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am eu triniaeth.

Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael prawf croen 48 awr cyn dechrau cwrs o driniaeth.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Dywedwyd wrthym fod y clinig yn amgylchedd cynhwysol a bod pob aelod o staff a chlaf yn cael ei drin yn deg. Dywedwyd wrthym y byddai hawliau dynol cleifion trawsryweddol yn cael eu cynnal ac y byddai enwau a rhagenwau a ffafrir yn cael eu defnyddio yn ôl y gofyn.

Roedd polisi cydraddoldeb a hawliau dynol ar waith yn y clinig, a gwelsom dystiolaeth bod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant ar y pwnc hwn. Fodd bynnag, ni wnaethom lwyddo i ddod o hyd i dystiolaeth o hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth i unrhyw aelod arall o'r staff.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant perthnasol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Roedd mynediad gwastad i'r adeilad o'r stryd a lloriau gwastad ym mhob rhan o'r llawr gwaelod. Gan fod yr ystafell drin ar gyfer triniaethau laser yn yr islawr, gellid

trefnu mynediad gwastad drwy'r fynedfa gefn i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd.

Roedd pawb a atebodd holiadur AGIC yn cytuno nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Dywedwyd wrthym fod y lleoliad yn gofyn am adborth gan gleifion ar ôl eu triniaeth drwy blatfform trefnu apwyntiadau ar-lein y clinig, a bod adborth hefyd yn cael ei gasglu drwy adolygiadau ar-lein neu wyneb yn wyneb yn y clinig.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod adborth yn cael ei asesu a'i ddadansoddi'n barhaus. Cawsom enghreifftiau o hyn a oedd wedi arwain at welliannau i'r gwasanaeth, gan gynnwys nodiadau ychwanegol yn y cofnodion i nodi dewisiadau ac alergeddau'r cleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd yn ymddangos bod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a bod mesurau addas ar waith i atal mynediad heb awdurdod. Roedd y clinig yn cynnwys derbynfa ac ardal aros, ag ystafelloedd trin ar wahân ar gyfer triniaethau laser a'r gwasanaethau eraill a gynigir. Roedd yr ystafell drin ar gyfer triniaethau laser yn ymddangos yn gyfforddus ac yn cynnwys digon o gyfarpar.

Gwelsom dystiolaeth bod yr Adroddiad ar Gyflwr Gosodiadau Trydanol (EICR) a gynhelir bob pum mlynedd a'r Profion Offer Cludadwy (PAT) wedi'u cynnal yn ddiweddar. Roedd asesiad risg tân ar gael ac roedd wedi cael ei adolygu'n rheolaidd. Roedd yr allanfeydd tân yn glir ac roedd arwyddion ar eu cyfer ac roedd y diffoddwyr wedi cael eu gwasanaethu o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd cofnodion yn dangos bod gwiriadau larwm tân ac ymarferion gwagio'r adeilad yn cael eu cynnal ar adegau priodol. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân wedi cael ei gwblhau gan sawl aelod o'r staff.

Mynegwyd ein pryder yn hyn o beth yn ystod yr arolygiad i'r rheolwr cofrestredig, a drefnodd i'r hyfforddiant hwn gael ei gwblhau ar unwaith ar ôl yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Roedd pecyn cymorth cyntaf yn barod i'w ddefnyddio pe byddai damwain neu anaf. Roedd nifer priodol o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf diweddaraf.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus yr olwg. Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig brosesau glanhau clinigol addas ar gyfer y staff, y cyfarpar a'r ystafell drin, a gwelsom dystiolaeth o archwiliadau glanhau misol. Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer storio a gwaredu gwastraff a gynhyrchwyd gan y clinig yn ddiogel.

Roedd polisi atal a rheoli heintiau cyfredol ar waith, a gwelsom dystiolaeth bod y staff a gaiff eu cyflogi gan y clinig wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC o'r farn bod y lleoliad yn lân iawn a bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Gwelsom fod gan y clinig bolisi diogelu ar waith a oedd yn cyd-fynd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Roedd arweinydd diogelu wedi cael ei benodi a oedd wedi lawrlwytho ap ffôn symudol Gweithdrefnau Diogelu Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r canllawiau diweddaraf.

Gwnaethom edrych ar gydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant diogelu a gwelsom nad oedd pob elfen wedi'i chwblhau i'r lefelau priodol.

Mynegwyd ein pryder yn hyn o beth yn ystod yr arolygiad i'r rheolwr cofrestredig, a drefnodd i'r hyfforddiant hwn gael ei gwblhau ar unwaith ar ôl yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd y peiriant laser yr un fath â'r un a oedd wedi'i gofrestru ag AGIC a gwelsom dystiolaeth fod gwaith cynnal a chadw a gwasanaethu rheolaidd wedi cael ei gynnal. Dywedwyd wrthym fod gwiriadau o'r cyfarpar laser a gwiriadau diagnosteg ar y systemau yn cael eu cynnal bob dydd. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod y gwiriadau hyn yn cael eu cofnodi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff gwiriadau dyddiol o'r peiriant laser eu cynnal a'u cofnodi.

Roedd contract cyfredol ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau (LPA) a oedd wedi paratoi asesiad risg laser ac roedd rheolau lleol cyfredol a oedd yn nodi sut i ddefnyddio'r peiriant laser yn ddiogel. Roedd protocolau trin meddygol ar gael ond roedd angen eu hadolygu.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r protocolau trin meddygol gael eu hadolygu gan ymarferydd meddygol priodol a rhoi copi i AGIC pan fydd y broses wedi'i chwblhau.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd cyfarpar amddiffyn llygaid ar gael i gleifion a'r gweithredwyr. Roeddent yn lân ac yn ymddangos fel petaent mewn cyflwr da. Fodd bynnag, roedd dwy set ychwanegol nad oeddent yn bodloni'r gofynion a nodwyd yn y rheolau lleol. Nododd ymholiadau nad oeddent yn briodol i amddiffyn rhag laserau. Cafodd y rheolwr cofrestredig wared arnynt ar unwaith i'w hatal rhag cael eu defnyddio.

Ymdriniwyd â'n pryder yn hyn o beth yn ystod yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Roedd arwyddion y tu allan i'r ystafell drin i ddangos bod peiriant laser yn yr ystafell ac roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau bod y peiriant laser yn ddiogel pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio.

Roedd gan y gweithredwyr awdurdodedig hyfforddiant Craidd Gwybodaeth cyffredinol ar ddefnyddio peiriannau laser ac IPL, ac roeddent wedi cwblhau hyfforddiant penodol ar gyfer y peiriant laser yn y lleoliad.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd adborth gan gleifion yn cael ei annog, ei adolygu'n rheolaidd a'i drafod mewn cyfarfodydd tîm er mwyn helpu i wella'r gwasanaeth. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw system wedi'i dogfennu ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd yn unol â'r rheoliadau.

Rheoli cofnodion

Gwelsom fod cofnodion y cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel yn y gwasanaeth, a bod prosesau addas ar waith i atal achosion o golli data personol. Roedd cyfnodau cadw data a threfniadau gwaredu data priodol ar waith.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig sy'n rhedeg The Beauty Rooms at The Nibblers gyda thîm bach o staff ymroddedig. Wrth arsylwi ar y clinig, gwelsom fod yswiriant atebolrwydd cyflogwr ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol ar waith a bod y manylion wedi'u harddangos yn ôl yr angen. Roedd tystysgrif gofrestru AGIC a'r amodau cofrestru cysylltiedig yn cael eu cadw mewn ffolder ac nid oeddent yn cael eu harddangos fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod tystysgrif gofrestru AGIC a'r amodau cysylltiedig yn cael eu harddangos lle y gellir eu gweld yn hawdd.

Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith ac yn destun adolygiadau rheolaidd. Roedd y rhain yn cael eu llofnodi gan y rheolwr cofrestredig ar ran y staff ar ôl iddynt gael eu trafod mewn cyfarfodydd tîm. Gwnaethom drafod trefniadau i sicrhau bod y staff yn llofnodi ac yn dyddio'r dogfennau hyn eu hunain er mwyn cadarnhau eu bod wedi darllen a deall y polisiau hyn.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn llofnodi'r polisiau perthnasol i gadarnhau ei fod wedi eu darllen a'u deall.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gweithdrefn gwyno addas ar waith ac ar gael yn hwylus i'r cleifion. Roedd y weithdrefn hon yn cynnwys enw'r unigolyn sy'n gyfrifol am ymdrin â chwynion ac amserlenni addas ar gyfer ymateb iddynt. Roedd manylion cyswllt ar gyfer sefydliadau eraill ar gael pe bai achwynydd am uwchgyfeirio pryder.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd gweithdrefnau priodol ar waith i recriwtio a sefydlu staff. Dangosodd adolygiad o gofnodion y staff bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal, gan gynnwys defnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Lle nad oedd geirdaon ar gael ar gyfer staff yr oedd y rheolwr cofrestredig yn eu hadnabod yn bersonol, gwnaethom drafod trefniadau i ddatblygu asesiadau risg unigol i'w cadw yn ffeil pob aelod o'r staff.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd y staff yn gweithio ar sail rota er mwyn sicrhau bod digon o staff cymwysedig ar gael bob amser. Er mwyn datblygu a chynnal sgiliau a gwybodaeth y gweithlu, roedd y rheolwr cofrestredig yn monitro gofynion hyfforddiant ac yn eu trafod â'r staff yn ôl yr angen. Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant ychwanegol a oedd yn berthnasol i rolau staff.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom nad oedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân.	Gallai fod risg bosibl i'r cleifion wrth ymweld â'r safle.	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â'r rheolwr cofrestredig.	Cafodd hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân ei drefnu a'i gwblhau ar unwaith yn dilyn yr arolygiad.
Gwelsom nad oedd elfennau o hyfforddiant diogelu wedi cael eu cwblhau i'r lefelau cywir gan y staff.	Gallai fod risg bosibl i'r cleifion wrth ymweld â'r safle.	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â'r rheolwr cofrestredig.	Cafodd yr elfennau a oedd ar goll o'r hyfforddiant diogelu eu trefnu a'u cwblhau ar unwaith yn dilyn yr arolygiad.
Gwelsom ddwy set ychwanegol o gyfarpar amddiffyn y llygaid nad oeddent yn bodloni'r gofynion a nodwyd yn y rheolau lleol.	Gallai fod risg bosibl i'r cleifion wrth ddefnyddio'r peiriant laser.	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â'r rheolwr cofrestredig.	Cafodd y cyfarpar llygaid hwnnw ei waredu ar unwaith er mwyn atal unrhyw achosion anfwriadol o'i ddefnyddio.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: The Beauty Room at The Nibblers

Dyddiad yr arolygiad: 21 Hydref 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd ysgrifenedig i AGIC na fydd y practis yn darparu unrhyw driniaethau laser pellach i gleifion dan 18 oed, heb yr awdurdodiad gofynnol gan AGIC.	Adran 24, Deddf Safonau Gofal 2000	Ni fydd unrhyw un o dan 18 oed yn cael triniaeth o hyn ymlaen, neu hyd nes y bydd newidiadau wedi'u cytuno ag AGIC.	Carys Fitzgerald	Ar unwaith

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Carys Fitzgerald

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 21 Hydref 2025

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: The Beauty Room at The Nibblers

Dyddiad yr arolygiad: 21 Hydref 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ystyried y ffordd orau i ddiwallu anghenion unigol cleifion a all fod am gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Rheoliad 15(1)(a)	Cyflwyno system syml i nodi cleifion y mae'n well ganddynt gyfathrebu yn Gymraeg wrth drefnu apwyntiad. Sicrhau bod dogfennau allweddol (ffurflenni cydsynio, gwybodaeth ôl-ofal, gwybodaeth am gwyno) ar gael yn Gymraeg. Sicrhau bod staff yn gyfarwydd â chyfarchion ac ymadroddion Cymraeg sylfaenol er mwyn cefnogi dulliau cyfathrebu sy'n ystyriol o ddiwylliant. Cyfeirio'r cleifion at staff Cymraeg eu hiaith lle bo staff o'r fath ar gael.	Carys Fitzgerald, Rheolwr Cofrestredig	4 wythnos

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant perthnasol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.	Safon - Tegwch	Cofrestru pob aelod o'r staff ar hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant achrededig. Cynnal matrices hyfforddiant i fonitro dyddiadau cwblhau ac adnewyddu. Cynnwys ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y broses sefydlu ar gyfer pob aelod newydd o staff.	Carys Fitzgerald, Rheolwr Cofrestredig	2 wythnos
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff gwiriadau dyddiol o'r peiriant laser eu cynnal a'u cofnodi.	Rheoliad 15(2)	Cyflwyno rhestr wirio diogelwch laser i'w chwblhau bob dydd cyn triniaeth gyntaf y diwrnod. Storio rhestrau gwirio wedi'u cwblhau mewn ffolder ddynodedig (digidol neu ar bapur) at ddibenion archwilio. Darparu hyfforddiant gloywi i bob gweithredwr laser awdurdodedig ar weithdrefnau gwirio cywir.	Carys Fitzgerald, Rheolwr Cofrestredig	Rhoi ar waith ar unwaith
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r protocolau trin meddygol gael eu hadolygu gan ymarferydd meddygol priodol a	Rheoliad 45(1)	Trefnu bod ymarferydd meddygol addas yn adolygu ac yn diweddarau'r holl brotocolau trin.	Carys Fitzgerald, Rheolwr Cofrestredig	4-6 wythnos

rhoi copi i AGIC pan fydd y broses wedi'i chwblhau.		Sicrhau bod protocolau yn adlewyrchu'r arferion gorau cyfredol a chanllawiau'r gwneuthurwr. Cyflwyno protocolau wedi'u diweddarau i AGIC ar ôl eu cwblhau.		
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd yn unol â'r rheoliadau.	Rheoliad 19	Cyflwyno system monitro ansawdd strwythuredig sy'n cynnwys archwiliadau misol (rheoli heintiau, cadw cofnodion, gwiriadau cyfarpar, cydymffurfiaeth â hyfforddiant). Cynnal adolygiadau rheoli bob chwarter i werthuso canfyddiadau a nodi gwelliannau. Dogfennu pob cam gweithredu a chanlyniad i ddangos bod prosesau sicrhau ansawdd parhaus ar waith.	Carys Fitzgerald, Rheolwr Cofrestredig	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod tystysgrif gofrestru AGIC a'r amodau cysylltiedig yn cael eu harddangos lle y gellir eu gweld yn hawdd.	Adran 28, Deddf Safonau Gofal 2000	Arddangos tystysgrif gofrestru AGIC a'r amodau mewn rhan amlwg o'r lleoliad lle gall y cyhoedd ei gweld. Sicrhau bod y dystysgrif yn cael ei newid ar unwaith os caiff ei diweddarau neu ei difrodi.	Carys Fitzgerald, Rheolwr Cofrestredig	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn llofnodi'r polisïau perthnasol i gadarnhau ei fod wedi eu darllen a'u deall.	Rheoliad 9	Cyhoeddi pob polisi perthnasol i'r staff a sicrhau eu bod yn eu llofnodi i gadarnhau eu bod wedi eu darllen a'u deall. Cynnal cofnod llofnodi polisïau at ddibenion archwilio Cynnwys y drefn o lofnodi polisïau yn y broses sefydlu ar gyfer staff newydd.	Carys Fitzgerald, Rheolwr Cofrestredig	Wedi'i gwblhau
--	------------	--	--	----------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Carys Fitzgerald

Swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 11 Rhagfyr 2025